**Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru**
**Datganiad i'r Wasg**
**I'w ryddhau ar unwaith**
02920 491818 | 07815 071164
www.neu.org.uk
www.Facebook.com/nationaleducationunion
www.Twitter.com/@NEUnion

# Cwricwlwm newydd, amser i adolygu Bagloriaeth Cymru?

Wrth sôn am gynlluniau'r Ceidwadwyr i ddileu Bagloriaeth Cymru , dywedodd David Evans, Ysgrifennydd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru:

"Yn gyffredinol, rydym yn cefnogi Bagloriaeth Cymru, ond credwn fod rhai problemau wedi codi sy'n golygu bod ganddi lai o werth nag a fwriadwyd yn wreiddiol. Gyda chyflwyniad y cwricwlwm newydd, a'r adolygiad anochel o gymwysterau sy'n ymwneud â hynny, mae hwn yn gyfle i edrych eto ar y Fagloriaeth.

"Er enghraifft, credwn fod gan Fagloriaeth Cymru gyfle i alluogi myfyrwyr i feddwl yn well yn feirniadol, ac felly'n cefnogi nodau Llywodraeth Cymru o ran creu dinasyddion ymgysylltiedig. Mae Bagloriaeth Cymru wedi'i chynnwys fel mesur perfformiad, mesur y credwn y dylai'r Gweinidog Addysg presennol symud oddi wrtho.

"Mae llymder wedi cael effaith anochel ar y Fagloriaeth, gan fo ysgolion a cholegau gyda chyfyngiadau yn y gweithgareddau y gall pobl ifanc ei wneud fel rhan ohono. I gefnogi'r Fagloriaeth, mae angen buddsoddi mewn addysg er mwyn sicrhau bod adnoddau a chefnogaeth yno ar gyfer myfyrwyr a gweithwyr addysg proffesiynol."

**Cysylltiadau'r wasg:**

Mae'r Undeb Addysg Genedlaethol yn gyfuniad o Gymdeithas yr Athrawon a Darlithwyr (ATL) ac Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT), a ffurfiwyd ar 1 Medi 2017. Gweler y manylion cyswllt isod am gymorth:

***Cyswllt: David Evans, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru, Tŷ Sinnott, 18 Llys Neifion, Ffordd Vanguard, Caerdydd CF24 5PJ. Ffôn: 029 20491818. Symudol: 07815 071164.***

***e-bost: david.evans@neu.org.uk***

**Nodyn i olygyddion:**

- Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn sefyll ar gyfer dyfodol addysg. Mae'n dod â lleisiau athrawon, darlithwyr, staff cefnogi ac arweinwyr sy'n gweithio mewn ysgolion a cholegau cynaledig ac annibynnol ynghyd i ffurfio'r undeb addysg fwyaf yng Nghymru.

- Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn gysylltiedig â Chyngres Undebau Llafur (TUC), Pwyllgor Undeb Llafur Ewrop ar gyfer Addysg (ETUCE) ac Addysg Ryngwladol (EI). Nid yw'n gysylltiedig ag unrhyw blaid wleidyddol ac mae'n ceisio gweithio'n adeiladol gyda'r holl brif bleidiau gwleidyddol.